GIG CYMRU NHS WALES

# Cyfraniad iechyd y cyhoedd at ofal iechyd gwell

## Fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar gyfer Cymru

Mai 2025





# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol 04

2 Fframwaith Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru – Dull System Gyfan 06

3 Cyd-destun a chefndir 08

4 Beth yw gofal iechyd iechyd y cyhoedd? 12

5 Sut y gwnaethom ddatblygu'r fframwaith a'r argymhellion 14

6 Fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar gyfer Cymru 18

- **Rhan 1** Ymagwedd system gyfan 19
- **Rhan 2** Gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd 22
- **Rhan 3** Offer, rolau a chyfrifoldebau ac enghreifftiau 24

7 Rôl iechyd y cyhoedd arbenigol 28

8 Yr ystod o gyfraniadau at ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru 30

9 Sut gallem ni gryfhau'r system gofal iechyd gan ddefnyddio dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru? 34

10 Atodiadau 36



Adroddiad cyfraniad iechyd y cyhoedd at ofal iechyd gwell: fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar gyfer Cymru
Dyddiad: Mai 2025

# Crynodeb Gweithredol

## Sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel, am ddim lle mae'n cael ei gyflwyno, gan alluogi pobl i fyw bywydau iach.

### Cyd-destun a Chefndir

Sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) er mwyn darparu gofal o ansawdd uchel, am ddim lle mae'n cael ei gyflwyno, gan alluogi pobl i fyw bywydau iach. Mae'r GIG yn cynnig ystod eang o wasanaethau, gan gynnwys atal, ymyrraeth gynnar, gofal sylfaenol, gofal yn y gymuned, gofal a gynlluniwyd, a gofal brys.

Mae Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd – sy'n ymwneud â gweithredu sgiliau ac arbenigedd iechyd y cyhoedd i gefnogi effeithiolrwydd, tegwch ac effeithlonrwydd iechyd a gofal cymdeithasol – wedi bod yn rhan annatod ers sefydlu'r GIG, ac yn canolbwyntio ar nodi anghenion y boblogaeth, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau, a gwneud y gorau o ddefnyddio technolegau.

### Heriau

Mae'r GIG yn wynebu heriau digynsail oherwydd newidiadau demograffig, cymdeithasol ac economaidd, gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio.

Mae'r heriau hyn yn effeithio ar anghenion gofal cymdeithasol ac yn gofyn am ddatrysiadau cydweithredol sy'n cynnwys llywodraeth leol, y GIG, Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, y trydydd sector, a chymunedau lleol. Mae datblygiadau technolegol a disgwyliadau'r cyhoedd yn cymhlethu heriau o'r fath ymhellach.

Mynnodd Llywodraeth Cymru fod Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol. Nod y fframwaith hwn yw cryfhau gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gan ddarparu rolau eglur ar gyfer iechyd y cyhoedd ac argymhellion strategol ar gyfer camau gweithredu yn y dyfodol.

### Diffiniad Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd

Mae gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn gwneud y gorau o fanteision iechyd y boblogaeth drwy flaenoriaethu adnoddau, atal clefydau, a gwella canlyniadau iechyd drwy ymyriadau iechyd effeithiol. Mae'n cynnwys rhoi sgiliau iechyd y cyhoedd ar waith ar draws y system gofal iechyd er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

### Effaith y Dull Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd

Gallai gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd cryfach ar draws y GIG a gofal cymdeithasol wella canlyniadau iechyd a defnydd o adnoddau yn sylweddol. Er enghraifft, gallai mynd i'r afael â phwysedd gwaed uchel heb ei reoli a heb ei ganfod atal 419 o drawiadau ar y galon a 626 o strôcs yng Nghymru dros dair blynedd, gan arbed £11.8 miliwn i'r GIG a £6 miliwn i ofal cymdeithasol.



### Elfennau'r Fframwaith

Mae'r fframwaith hwn yn cynnwys tair rhan a ddatblygwyd ar ôl ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys Byrddau Iechyd, Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru a Llywodraeth Cymru.

**Y tair rhan yw:**

1. **Cynnig Dull System Gyfan:** mae'r ddogfen hon yn trafod strwythur ac egwyddorion gofal iechyd iechyd y cyhoedd, gan bwysleisio dulliau sy'n seiliedig ar anghenion, sy'n seiliedig ar ddata, sy'n ataliol a theg, sydd wedi'u llywio gan dystiolaeth, ac sy'n ymgysylltu â'r gymuned.
2. **Egwyddorion ar gyfer gweithredu gofal iechyd iechyd y cyhoedd:** Meysydd gweithredu arfaethedig, gan gynnwys cynllunio yn seiliedig ar anghenion, blaenoriaethu wrth wneud penderfyniadau, adolygiadau gwasanaethau a llwybrau gofal, a gwerthuso a dysgu. Yn rhan o hyn rydym yn nodi rolau a chyfrifoldebau arfaethedig ar gyfer polisi a chyflawni, gan bwysleisio cyfraniad gweithwyr iechyd y cyhoedd arbenigol mewn meysydd felcomisiynu gwasanaethau iechyd, cynllunio, blaenoriaethu, tegwch, llywodraethu clinigol, archwilio, gwerthuso, diogelwch cleifion ac arweinyddiaeth.
3. **Offer ac adnoddau:** Cyfres o adnoddau gan gynnwys cwestiynau i sefydliadau'r GIG er mwyn cryfhau eu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, yn ogystal â phecyn cymorth ar y we gydag enghreifftiau ymarferol. Bydd rhagor yn cael ei ychwanegu at y rhain.

### Argymhellion Strategol

Er mwyn gwreiddio'r fframwaith, rydym yn argymell:

1. Cryfhau dealltwriaeth a gallu i weithredu dulliau gofal iechyd iechyd y cyhoedd mewn rolau strategol.
2. Gwella capasiti a gallu yn y gweithlu iechyd y cyhoedd arbenigol.
3. Cyd-gynhyrchu map ffordd ar gyfer ei weithredu'n ymarferol yn lleol ac yn genedlaethol yn rhan o'n huchelgais i gyflawni system iechyd a gofal gynaliadwy.

### Casgliad

Nod y fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd arfaethedig yw gwella gofal iechyd yng Nghymru drwy weithredu egwyddorion iechyd y cyhoedd ar draws y system, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, a gwneud y gorau o ddefnydd o adnoddau.

Mae cydweithio, gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar ddata, ac ymgysylltu â'r gymuned yn allweddol i'w lwyddiant.

# Fframwaith Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cymru – Dull System Gyfan

## Egwyddorion sylfaenol

- Yn seiliedig ar anghenion
- Yn seiliedig ar ddataa
- Canolbwyntio ar atal
- Teg a chymesur
- Canol-bwyntio ar boblogaeth
- Ymchwil wedi'i llywio gan dystiolaeth ac sy'n llywio tystiolaeth
- Cymunedau a rhanddeiliaid wedi'u hymgysylltu

**Dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd**

## Meysydd gweithredu

- Deddfwriaeth
  Polisi
  Strategaeth
- Cynllunio
  Perfformiad
  Atebolrwydd
- Gwneud penderfyniadau
  Trawsnewid gwasanaethau
  Dyrannu adnoddau

>

## Effeithiau

- Sicrhau bod iechyd y boblogaeth ar ei orau
- Gofal Iechyd Cynaliadwy: Gwerth a Gwyrdd
- Gweithlu llawn gwybodaeth ac ymgysylltiedig
- Cyhoedd llawn gwybodaeth ac wedi'i rymuso
- Gwasanaethau sy'n diwallu anghenion heddiw ac yfory

## Gofal iechyd cysylltiedig a system iechyd a gofal integredig

- Pobl a Chymunedau Lleol
- Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned
- Iechyd a Gofal Integredig
- Gofal Eilaidd
- Gofal Trydyddol

>

**Cymru Iachach**

# Cyd-destun a chefndir

## Sefydlwyd y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) er mwyn sicrhau bod pobl yn derbyn gofal o ansawdd uchel gan eu galluogi i fyw bywydau mor iach â phosibl, a hynny am ddim lle mae'n cael ei gyflwyno.

Mae llawer i fod yn falch ohono yn yr ystod eang o wasanaethau o ansawdd uchel y mae'n eu darparu. Mae hyn yn cynnwys gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar gan gynnwys profion sgrinio ac imiwneiddio, gofal sylfaenol (bob awr o'r dydd, bob dydd) gan gynnwys ymarfer cyffredinol, deintyddiaeth, fferyllfeydd yn y gymuned a gwasanaethau optometreg a gofal yn y gymuned, gofal a gynlluniwyd (llawfeddygol yn bennaf; rhai gweithdrefnau meddygol), gofal brys neu ofal 'heb ei drefnu' gan gynnwys gwasanaethau ambiwlans. Mae'n darparu miliynau o ryngweithiadau gwasanaeth bob dydd.

Mae defnyddio sgiliau iechyd y cyhoedd ar gyfer darpariaeth gofal iechyd - a elwir yn Ofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd - wedi bod yn bwysig ers sefydlu'r GIG.

O nodi angen y boblogaeth am wasanaethau i gefnogi cynllunio, nodi anghydraddoldebau o ran mynediad at ofal a chanlyniadau gofal, a chynnig yr opsiynau gorau ar gyfer defnyddio technolegau newydd a phresennol, mae Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd yn bwysig ar gyfer system iechyd a gofal cymdeithasol gynaliadwy ac effeithiol.

Mae'r GIG yn wynebu heriau digynsail y mae wedi'u profi droeon. Mae hyn yn cynnwys darlun newidiol o anghenion iechyd a chymdeithasol sy'n adlewyrchu newid demograffig, cymdeithasol ac economaidd gyda nifer cynyddol o bobl hyn sy'n byw'n hirach, ac sy'n byw gydag amlafiacheddau o ganlyniad i hynny, yn ogystal ag anghydraddoldebau mewn canlyniadau clinigol ac iechyd poblogaethau.

Mae gan yr heriau hyn oblygiadau sylweddol hefyd ar gyfer anghenion a darpariaeth gofal cymdeithasol. Mae gan anghydraddoldebau o'r fath lawer o ffactorau achosol, gan gynnwys ffactorau cymdeithasol sy'n sail i benderfynyddion iechyd fel tlodi, addysg, cyflogaeth a thai. Maent angen i lawer o bobl a sefydliadau yn y system - llywodraeth leol, y GIG, Llywodraeth Cymru, y byd academaidd, y trydydd sector a chymunedau lleol - gydweithio i ddod o hyd i ddatrysiadau. Mae datblygiadau technolegol ac arloesol sydd efallai'n anodd cael adnoddau ar eu cyfer, ynghyd â disgwyliadau uchel gan y cyhoedd, yn ychwanegu at yr heriau sy'n wynebu'r GIG heddiw.

Gallai dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd cryfach ar draws y GIG a gofal cymdeithasol gefnogi anghenion ac iechyd ein poblogaeth yng Nghymru yn well mewn ffyrdd a fyddai'n gwneud y defnydd gorau o adnoddau er mwyn cyflawni canlyniadau gwell ar gyfer dyfodol mwy cynaliadwy.




### Effaith y dull hwn

Yn rhan o'r offer cysylltiedig ar gyfer y fframwaith hwn, rydym yn datblygu sawl enghraifft ymarferol o effaith y dull hwn. Yr enghraifft gyntaf wedi'i chwblhau yw pwysedd gwaed.

Rydym yn amcangyfrif y gallem atal **419 o drawiadau ar y galon a 626 o strôcs yng Nghymru mewn 3 blynedd, gan arwain at arbedion o £11.8 miliwn i'r GIG, ac arbedion o £6 miliwn i Ofal Cymdeithasol ym mlwyddyn 1 (Ffigur 1)**

**Ffigur 1** **Effaith dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar bwysedd gwaed**

Yn seiliedig ar amcangyfrif o'r % o bobl â diagnosis o bwysedd gwaed uchel a gafodd eu trin yn unol â'r targed




Yn yr un modd, gofynnodd Llywodraeth Cymru i Iechyd Cyhoeddus Cymru ddatblygu fframwaith ar gyfer gofal iechyd iechyd y cyhoedd mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol, gan dynnu ar safbwyntiau ac arbenigedd Byrddau Iechyd, Gweithrediaeth GIG Cymru a Llywodraeth Cymru yn 2024 – 2025. Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi gweithio gyda Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd mewn Byrddau Iechyd fel cyd-noddwyr y gwaith hwn. Mae'r ddogfen hon yn nodi ein datganiad o'r Fframwaith hwnnw i gryfhau ein dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

Nodau'r Fframwaith a'r argymhellion sy'n deillio o'i ddatblygu yw:

- **Datblygu dull o gryfhau gofal iechyd iechyd y cyhoedd er mwyn sicrhau gofal iechyd gwell yng Nghymru**
- **Darparu datganiad eglur o rolau iechyd y cyhoedd wrth gyflawni hyn**

Bydd y ddogfen yn trafod beth yw ystyr gofal iechyd iechyd y cyhoedd i ni a'r broses a'r dulliau a ddefnyddiwyd gennym i ddatblygu'r fframwaith. Bydd yn tynnu ar waith mewn mannau eraill; barn rhanddeiliaid ynghylch yr hyn y dylai ei gynnwys yn ogystal â'r cryfderau a'r bylchau yn y system gofal iechyd bresennol yng Nghymru, yn ogystal â set o argymhellion strategol ar gyfer y dyfodol.

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at yr amcanion tymor byr i dymor hir canlynol er mwyn cyflawni'r nodau (isod):

Mae'r fframwaith hwn wedi canolbwyntio'n bennaf ar weithredu dull iechyd y cyhoedd mewn lleoliad gofal iechyd, ond gallai'r sgiliau a'r dulliau a ddisgrifir hefyd fod yn berthnasol i gydweithio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chynlluniau ardal.

Bydd gwaith pellach yn cael ei gynnwys yn y cynllun gweithredu sy'n deillio o'r argymhellion yn y fframwaith hwn er mwyn archwilio dealltwriaeth a gweithredu yn y maes hwn.

- **Cefnogi dealltwriaeth gwell** yn y GIG o beth yw ystyr defnyddio dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, sut y gellid ei weithredu a'r manteision pendant drwy ddatgan fframwaith
- **Cyd-gynllunio gweithredu** dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn ymarferol, gan ddefnyddio enghreifftiau effeithiol
- **Tynnu sylw at rôl gymharol y prif fframweithiau a'r rhaglenni** allweddol cyfredol sy'n cyfrannu at ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru
- **Gweithio tuag at set sgiliau gryfach** wrth weithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd - ar gyfer y rhai yn y GIG a'r rhai yn y ddisgyblaeth iechyd y cyhoedd arbenigol
- Gweithio tuag at **gryfhau cymorth yn y system** (strwythur cefnogol) er mwyn gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, lle mae bylchau cydnabyddedig



# Beth yw gofal iechyd iechyd y cyhoedd?

## Yn aml, ystyrir bod gan Iechyd y Cyhoedd dri phrif barth gweithredu:

- **Gwella iechyd** - camau gweithredu sy'n gwella iechyd y boblogaeth, e.e. gwasanaethau pwysau iach a pholisïau cyhoeddus iach
- **Diogelu iechyd** - camau sy'n amddiffyn y cyhoedd rhag bygythiadau i'w hiechyd megis rheoli clefydau trosglwyddadwy, peryglon cemegol ac yn y blaen
- **Gwasanaethau Gofal Iechyd** - camau gweithredu ac offer sy'n ceisio sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn effeithiol, yn ddiogel ac yn hygyrch i bawb yn gyson.

Mae gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn ymwneud â gwneud y gorau o fanteision gofal iechyd y boblogaeth wrth ddiwallu anghenion unigolion a grwpiau drwy:

- **Blaenoriaethu adnoddau sydd ar gael Atal afiechydon a dirywiad**
- **Gwella canlyniadau iechyd drwy gynllunio, cael mynediad at, defnyddio a gwerthuso ymyriadau a llwybrau iechyd a gofal effeithiol ac effeithlon Cyfadran Iechyd y Cyhoedd**
- **Gweithredu sgiliau, technegau ac arbenigedd iechyd y cyhoedd yn briodol ar draws y system i gyflawni hyn.**

Mae disgyblaeth arbenigol Iechyd y Cyhoedd yn y DU wedi datblygu datganiad mwy manwl dros y blynyddoedd o beth yw ystyr dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd.

Gofal iechyd iechyd y cyhoedd yw un o'r 3 pharth arbenigol a nodir gan Gyfadran Iechyd y Cyhoedd (FPH), ochr yn ochr â gwella iechyd a diogelu iechyd.

Yn sail i'r parthau hyn y mae swyddogaethau annatod deallusrwydd iechyd y cyhoedd ymarferol, iechyd y cyhoedd academaidd a datblygu'r gweithlu.

Mae rhagor o fanylion am bob un o'r parthau hyn i'w cael yma: Meysydd gwaith allweddol - Cyfadran Iechyd y Cyhoedd. **Key areas of work - FPH.**

Mae ymarferwyr, clinigwyr a chynllunwyr gwasanaethau iechyd y cyhoedd rhyngwladol wedi mabwysiadu a datblygu'r mewnwelediadau o'r DU.

Fe wnaethom adolygu amrywiaeth o ddogfennau asesu systemau iechyd gan gynnwys y rhai a gyhoeddwyd gan yr Arsyllfa Ewropeaidd ar Systemau a Pholisïau Iechyd a llenyddiaeth lwyd gysylltiedig.

Dangosodd hyn fod dwy ran o dair o genhedloedd Ewrop yn ceisio gweithredu neu eisoes yn gweithredu egwyddorion iechyd y cyhoedd yn benodol i waith cynllunio, defnyddio, tegwch, ansawdd a chanlyniadau gofal iechyd yn rhan o'u dull strategol o ymdrin ag iechyd y boblogaeth.



Mae Gulliford a Jessop (2020) yn nodi bod amrywiaeth o genhedloedd wedi bod yn gweithredu ac yn datblygu mewnwelediadau i ofal iechyd iechyd y cyhoedd yn rhan o'u rhaglenni cenedlaethol.

Cynhaliodd Awdurdod Gwybodaeth ac Ansawdd Iechyd Iwerddon adolygiad o strategaethau iechyd y cyhoedd cenedlaethol mewn detholiad o wledydd (Awdurdod Gwybodaeth ac Ansawdd, 2023) a daeth i'r casgliad bod cyfrannu at effeithiolrwydd systemau gofal iechyd yn rhan o nifer o strategaethau cenedlaethol.


Fe wnaethon ni adolygu detholiad o'r strategaethau hyn ar gyfer Awstria, Awstralia, Canada, y Ffindir, yr Alban, Gogledd Iwerddon, Lloegr a Sweden.

Roedd pob un o'r strategaethau yn cydnabod, mewn modd ymhlyg yn y rhan fwyaf ohonynt, bwysigrwydd dulliau iechyd y cyhoedd a ddefnyddir ym maes gofal iechyd. Rydym wedi ceisio rhoi eu dysgu ar waith yn y fframwaith hwn.

Y wers allweddol i ni ar ôl ystyried systemau gofal iechyd cenedlaethol rhyngwladol yw, er mwyn gwella iechyd y boblogaeth a lleihau anghydraddoldebau iechyd, fod angen cyfuniad o waith cynllunio a gweithredu ar draws pob un o'r 3 pharth iechyd y cyhoedd - maent yn gysylltiedig â'i gilydd. Yr ail wers yw bod Strategaethau Iechyd y Cyhoedd nad ydynt yn ystyried un parth yn colli cyfleoedd pwysig i wella a diogelu iechyd y boblogaeth, ac i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau mewn iechyd. Mae angen y tri pharth er mwyn gwella a diogelu iechyd poblogaeth, a'i systemau iechyd, mewn modd cynaliadwy.

Tynnir sylw at nodweddion unigryw pob maes (Ffigur 2), sy'n dangos pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth a phwysigrwydd gweithredu ym maes iechyd y cyhoedd gyda chymunedau lleol ac ar benderfynyddion ehangach. Mae'r fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y meysydd yn y cwadrant uchaf ar y dde, sy'n rhan o ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd.

**Ffigur 2** **Gofal iechyd iechyd y cyhoedd**




Ffynhonnell: wedi'i addasu o GIG Lloegr – Darparwyr y GIG

# Sut y gwnaethom ddatblygu'r fframwaith a'r argymhellion

## Cafodd gwaith datblygu fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd ei lywio gan:

- **Cyd-destun deddfwriaethol a strategol perthnasol yng Nghymru**
- **Ymarfer bwrdd gwaith er mwyn archwilio llenyddiaeth lwyd, yn enwedig cyhoeddiadau allweddol yn y DU**
- **Archwiliad bwrdd gwaith o lenyddiaeth lwyd, sef cyhoeddiadau swyddogol a strategaethau cenedlaethol yn bennaf, o ddetholiad o genhedloedd yn rhyngwladol**
- **Ymgysylltu ag ystod eang o gydweithwyr yn y gymuned iechyd y cyhoedd yn y DU, rhanddeiliaid ehangach yng Nghymru a chyrff iechyd y cyhoedd proffesiynol y GIG yn Lloegr a'r Alban. Dadansoddiad thematig o ddealltwriaeth rhanddeiliaid o ddull gofal iechyd poblogaeth yng Nghymru, y cyngor arno, a'r bylchau wrth ei weithredu**
- **Gwaith mapio mewnol o weithgareddau/arferion gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar draws Iechyd Cyhoeddus Cymru gan ddefnyddio holiadur.**

Gellir gweld y diolchiadau i bawb a gyfrannodd at y gwaith hwn yn atodiad 1.

### Canfyddiadau allweddol:

1. Mae agweddau ar ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd neu ei egwyddorion yn cael eu hyrwyddo gan ddogfennau strategol a gynhyrchwyd gan Lywodraethau yn y DU, y GIG, melinau trafod gwahanol a sefydliadau iechyd y cyhoedd fel y Gyfadran Iechyd y Cyhoedd a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd, ac yn rhyngwladol.

2. Mae deddfwriaeth Cymru,yn ogystal â gwerthoedd craidd GIG Cymru a'r cynllun hirdymor arweiniol ar gyfer y GIG a gofal cymdeithasol, **Cymru Iachach**, yn ei gwneud yn ofynnol i ofal iechyd weithredu llawer o egwyddorion ac elfennau dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), Dyletswydd Ansawdd, a Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol. Fodd bynnag, nid yw deddfwriaeth a strategaeth ar eu pen eu hunain yn ddigonol i lywio gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn GIG Cymru a gyda phartneriaid.

3. Y prif themâu yn dilyn ymgysylltu o fewn y gymuned iechyd y cyhoedd yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU ac ymgysylltu'n ehangach â rhanddeiliaid yng Nghymru:

   a) **Mae fframio, cyfathrebu ac ymgysylltu'n barhaus yn bwysig**

   Mae'r termau gofal iechyd iechyd y cyhoedd, gofal iechyd y boblogaeth neu ddull iechyd y cyhoedd mewn gofal iechyd yn aml yn cael eu defnyddio'n gyfnewidiol. Er nad oedd consensws eglur yn y gymuned iechyd y cyhoedd, a'r tu hwnt iddi, ar beth ddylid a beth na ddylid ei gynnwys mewn fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd, roedd cytundeb eang ar y dull, yr egwyddorion a'r angen i'w weithredu ym mhob rhan o'r system. Nodwyd bod rhaid i unrhyw fframwaith newydd fod yn eglur ynghylch ei bwrpas, ei iaith a'i amcanion a sut mae'n cyd-fynd â rhaglenni a fframweithiau presennol sydd eisoes ar waith. Dylai hefyd gynnwys enghreifftiau ymarferol a ddylai hefyd helpu i gyfleu gwerth gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd. Teimlwyd y byddai hefyd yn bwysig cael cynllun gweithredu a fyddai'n cynnwys ymgysylltu a chyfathrebu'n barhaus â rhanddeiliaid er mwyn galluogi dealltwriaeth o'r blaenoriaethau a'r pwysau cystadleuol lluosog yn y system gofal iechyd.

   b) **Y prif egwyddorion neu elfennau i'w cynnwys yn y fframwaith**

   Nodwyd bod pwysigrwydd sicrhau bod y system gofal iechyd a'i gwasanaethau a'i llwybrau gofal yn ataliol, wedi'i llywio gan dystiolaeth (clinigol, economeg iechyd, adenillion o fuddsoddi, cynaliadwyedd a gwerth cyffredinol), yn seiliedig ar anghenion, o ansawdd uchel ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn brif egwyddorion i'w datgan yn y fframwaith. Pwysleisiodd cydweithwyr a rhanddeiliaid iechyd y cyhoedd bwysigrwydd ymgysylltu'n barhaus â'r cyhoedd a chleifion hefyd, yn ogystal â dangosfyrddau data byw gan gynnwys data ar degwch a chanlyniadau i lywio gwelliannau parhaus. Mae angen trafodaethau, penderfyniadau a chynlluniau gwella sy'n seiliedig ar ddata i lywio gwelliannau mewn polisïau, cynlluniau a gwasanaethau. Yn ogystal, nodwyd bod yr angen am waith gwerthuso ac ymchwil parhaus mewn ffordd gydgysylltiedig ar bob lefel ym mhob rhan o'r system yn elfennau allweddol i sicrhau dysgu a gwella parhaus.

## c) Gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd: cryfderau a bylchau

Pwysleisiodd y gymuned iechyd y cyhoedd a rhanddeiliaid ehangach fod gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd eisoes yn digwydd i ryw raddau mewn rhaglenni gwahanol (e.e. Gwerth mewn Iechyd, y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol), gwasanaethau (e.e. Gwasanaethau Sgrinio), mentrau (e.e. rheoli iechyd y boblogaeth) a fframweithiau (e.e. Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal, Fframwaith Anghydraddoldebau). Mae pob Tîm Iechyd y Cyhoedd Lleol yng Nghymru yn ymwneud â rhyw fath o weithgarwch gofal iechyd iechyd y cyhoedd.

Mae hyn yn cynnwys gweithgarwch wedi'i gynllunio (e.e. cynllunio llwybrau) a gweithgarwch adweithiol (darparu cyngor) sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig o dan arweinyddiaeth Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd eu Bwrdd Iechyd Lleol.

Fodd bynnag, fe wnaethant dynnu sylw at y ffaith bod angen cryfhau dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd drwy gydweithio o fewn sefydliadau rhanddeiliaid a rhwng sefydliadau, yn enwedig ar gyfer meithrin capasiti a galluoedd mewn rhannau gwahanol o'r system ar gyfer ei weithredu. Roedd angen cysylltiad hefyd rhwng rhaglenni mawr.

Nododd sgyrsiau ymgysylltu hefyd yr angen am arweinyddiaeth a rennir (gyda rolau a chyfrifoldebau cytunedig) rhwng Llywodraeth Cymru, Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Byrddau Iechyd (cynllunio, iechyd y cyhoedd, ymgysylltu clinigol a hwyluso) er mwyn gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd mewn ffordd fwy cydlynol.

Awgrymwyd na ddylid ystyried unrhyw gynllun gweithredu ar gyfer gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd fel allbwn gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ond bod eraill yn y system hefyd yn berchen arno. Felly, dylid ei gyd-gynhyrchu, gan ystyried yn llawn y cyd-destun gweithredu gan gynnwys capasiti a galluoedd y rhai sy'n ymwneud â'r gwaith gweithredu a galluogwyr a rhwystrau eraill yn y system.

Nodwyd y canlynol yn feysydd i'w gwella i gryfhau gweithredu fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd: data neu fynediad at ddata, gallu a chynhwysedd dadansoddol a modelu, seilwaith digidol, adnoddau Unwaith i Gymru (e.e. pecynnau cymorth tystiolaeth), arbenigedd economeg iechyd, gwerthuso ac ymchwil, ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned ac arweinyddiaeth barhaus.

Mae'r meysydd gwella hyn wedi'u nodi gan y gymuned iechyd y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cyd-fynd yn dda â'r galluogwyr a nodir yn y Ddyletswydd Ansawdd a fframweithiau eraill sydd wrthi'n cael eu datblygu neu sydd ar waith yn y system (e.e. Fframwaith Anghydraddoldebau, Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal).



4. Gwaith mapio mewnol o ymarfer gofal iechyd iechyd y cyhoedd cyfredol yn Iechyd Cyhoeddus Cymru Dangosodd gwaith mapio mewnol fod Iechyd Cyhoeddus Cymru eisoes yn gwneud cyfraniad cryf at y system gofal iechyd gan gynnwys galluogi'r system i fabwysiadu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, yn bennaf ar lefel genedlaethol, drwy bortffolio o weithgareddau:

   - Darparu arbenigedd a chyngor iechyd y cyhoedd, er enghraifft:
     - Diogelu
     - Iechyd deintyddol y cyhoedd
     - Diwygio/trawsnewid gwasanaethau sylfaenol a chymunedol ehangach
     - Atal a gwasanaethau iechyd meddwl
     - Rheoli ac Atal Heintiau
     - Ymwrthedd Gwrthficrobaidd
     - Cyngor a chymorth i rwydweithiau clinigol, e.e. cardiofasgwlaidd; diabetes; cyhyrysgerbydol
   - Ystadegau a data cenedlaethol ar feysydd gwahanol (e.e. canser; anomaleddau cynhenid; marwolaethau plant; afiechydon prin; hunanladdiad; dangosfwrdd clwstwr gofal sylfaenol; gwyliadwriaeth clefydau trosglwyddadwy; ymwrthedd gwrthficrobaidd)
   - Arwain neu ddarparu cymorth sylweddol ar gyfer cyflwyno rhaglenni perthnasol mewn partneriaeth â'r GIG a phartneriaid ehangach, e.e.
     - Y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned
     - Rhaglenni iechyd deintyddol y cyhoedd
     - Rhaglen Diabetes Cymru Gyfan
     - Gofal Sylfaenol Gwyrddach
   - Cynhyrchu fframweithiau cenedlaethol, e.e. Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Atal; Lleihau Anghydraddoldebau drwy Ofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned
   - Datblygu addysg a sgiliau gweithlu'r GIG
   - Arweinyddiaeth iechyd y cyhoedd sy'n hyrwyddo dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd a rôl sefydliad angori

Mae llawer o feysydd gwaith eraill Iechyd Cyhoedd Cymru yn cyfrannu at barthau iechyd y cyhoedd eraill – gwella iechyd a diogelu iechyd, er enghraifft:

- Cyflenwi gwasanaethau fel profion sgrinio a microbioleg
- Arbenigedd a chyngor iechyd y cyhoedd ar gyfer, er enghraifft, Imiwneiddio; asesiad o'r effaith ar iechyd, adolygiadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, y Cynigion Gorau mewn Iechyd y Cyhoedd, economeg iechyd y cyhoedd, gwyddoniaeth newid ymddygiad, ymchwil a gwerthuso rhaglenni iechyd y cyhoedd, gwella ansawdd, profiad niweidiol yn ystod plentyndod, iechyd amgylcheddol
- Arwain neu ddarparu cymorth sylweddol ar gyfer cyflwyno rhaglenni perthnasol mewn partneriaeth â'r GIG a phartneriaid ehangach, e.e. Rhaglen Frechu yn erbyn Clefydau Ataliadwy; Y 1000 Diwrnod Cyntaf; Cynllun Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff; Helpa Fi i Stopio; Llwybr Pwysau Iach
- Parodrwydd, Gwydnwch ac Ymateb i Argyfwng, Ymateb Acíwt Cymru Gyfan
- Cyfathrebu â'r cyhoedd ar faterion iechyd y cyhoedd

Mae arbenigedd gofal iechyd iechyd y cyhoedd a gweithredu ei egwyddorion yn berthnasol ar draws nifer o gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru ac wedi'u gwreiddio mewn rhaglenni a gwasanaethau presennol.

# Fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar gyfer Cymru

Mae'r fframwaith a gynigiwn, ac argymhellion y gwaith hwn, wedi canolbwyntio ar ddangos, yn gyffredinol, beth mae mabwysiadu dull iechyd y cyhoedd mewn lleoliadau gofal iechyd yn ei olygu. Maent hefyd yn canolbwyntio ar ddangos sut y gellid cryfhau'r system gofal iechyd yng Nghymru gan ddefnyddio dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, gan dynnu ar yr adolygiad bwrdd gwaith o gyhoeddiadau allweddol, a sgyrsiau gyda dros 40 o randdeiliaid yng Nghymru a'r DU.

Mae'n dangos ystod o dasgau a phrosesau technegol y gellir eu rhoi ar waith i'w

**Mae'r Fframwaith wedi'i rannu'n dair rhan.**

### Rhan 1 - Dull system gyfan

Mynegi'r strwythur ac egwyddorion o ran sut y dylai'r dull hwn edrych, a'r effaith a'r manteision a fwriadwyd

### Rhan 2 - Gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd

Nodi'r meysydd gweithredu a'r gweithgareddau sy'n cael eu cynnal, ac y dylid eu cynnal, ar gyfer dull Cymru Gyfan ar gyfer Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd

### Rhan 3 - Offer, rolau a chyfrifoldebau ac enghreifftiau ymarferol

Gan gynnwys cwestiynau i helpu sefydliadau i ganfod y gweithgareddau allweddol sydd eu hangen arnynt, rolau a chyfrifoldebau wedi'u hawgrymu ar gyfer partneriaid system gwahanol, enghreifftiau ymarferol o'r effaith a phecyn sleidiau crynodeb cysylltiedig er mwyn helpu i rannu gwybodaeth, yn ogystal â, phecyn cymorth ar y we, a gynhelir yn Gofal Sylfaenol Un



## Rhan 1 - Dull system gyfan

Gellir mabwysiadu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd ar draws y system gofal iechyd gyfan ac mewn unrhyw ran ohoni, yn ogystal ag mewn partneriaethau â gofal cymdeithasol a'r trydydd sector sy'n canolbwyntio ar gydweithio ac integreiddio rhanbarthol fel Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol – gyda phobl a chymunedau lleol wrth wraidd iddynt. Gellir ei weithredu mewn gwasanaethau gofal sylfaenol ac iechyd yn y gymuned, mewn gofal iechyd eilaidd a thrydyddol, ac mewn llwybrau clinigol a gwasanaethau sy'n eu cysylltu **(Ffigur 3).**

### Meysydd gweithredu

Mae'r fframwaith yn nodi sut olwg sydd ar dda wrth weithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd. Mae'n dangos y gellir rhoi'r dull hwn ar waith mewn set allweddol o feysydd newid dylanwadol ar lefelau gwahanol o'r system gofal iechyd. Mae'r meysydd allweddol hyn yn ymwneud ag arweinyddiaeth a chyfrifoldebau yn genedlaethol ac yn lleol/ rhanbarthol, er enghraifft:


**Yn Genedlaethol:**

- Gan Lywodraeth Cymru (LlC) a gan arweinwyr clinigol LlC (Meddygol; Nyrsio; Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd) ac arweinwyr proffesiynol LlC fel Cyllid; y Gweithlu; Gweithrediadau a Digidol i lywio:
  - deddfwriaeth, polisi, strategaeth; fframweithiau cynllunio a rheoli perfformiad y GIG; mecanweithiau atebolrwydd eraill , a gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau
- Gan Berfformiad a Gwelliant GIG Cymru yn ei waith arwain a chydlynu prif feysydd a rhaglenni'r GIG yn genedlaethol, fel:
  - Cynllunio; datblygu a thrawsnewid gwasanaethau, a pherfformiad drwy'r rhaglen strategol ar gyfer gofal sylfaenol; rhwydweithiau clinigol; gofal a gynlluniwyd; gofal brys ac ansawdd, gwella a diogelwch cleifion

**Yn lleol ac yn rhanbarthol:**

- Gan Fyrddau Iechyd yn strategol wrth ddatblygu strategaethau; cynlluniau tymor canolig integredig; mecanweithiau atebolrwydd a pherfformiad y Bwrdd a'r Pwyllgor; gwneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau, a datblygu a thrawsnewid gwasanaethau
- Gan is-adrannau, cyfarwyddiaethau a thrwy arweinyddiaeth glinigol a rheolaethol ym maes Cynlluniau Tymor Canolig Integredig, ac wrth ddatblygu a thrawsnewid gwasanaethau

## Ffigur 3 Fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd Rhan 1 – Dull system gyfan




### Set o egwyddorion sylfaenol

Yn gryno, mae'r Fframwaith yn dangos bod mabwysiadu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn golygu gweithredu'r egwyddorion canlynol:

- **Yn seiliedig ar anghenion –** defnyddio mecanweithiau i nodi anghenion y boblogaeth y bydd gwasanaeth gofal iechyd yn cael ei ddarparu neu ei ddatblygu ymhellach ar ei chyfer – gallai hyn fod, er enghraifft, yn boblogaeth ddaearyddol, neu'n gymuned benodol â nodweddion cyffredin. Mae dull sy'n seiliedig ar anghenion yn rhan allweddol o ddarparu gwasanaethau iechyd o safon sy'n briodol ac yn hygyrch. Dylid defnyddio asesiad o anghenion ochr yn ochr â rheoli galw am wasanaethau iechyd er mwyn cynllunio, nodi blaenoriaethau a datblygu neu addasu gwasanaethau.
- **Yn seiliedig ar ddata –** dylid defnyddio'r data hwnnw i ddeall a llywio gwaith cynllunio, cyflawni a gwerthuso gwasanaethau gofal iechyd. Mae dull rheoli iechyd y boblogaeth yn dangos sut y gellir defnyddio data i nodi a phennu lefel risg grwpiau poblogaeth fel y gellir defnyddio'r ymyriadau targedig effeithiol cywir gyda'r boblogaeth gywir i gyflawni effeithiau cadarnhaol.



- **Canolbwyntio ar atal –** gall camau ataliol i fyny'r gadwyn mewn gofal iechyd, a ddarperir ar raddfa fawr, wella canlyniadau iechyd y boblogaeth a chyfrannu at lai o alw am ofal iechyd. Mae fframwaith iechyd a gofal seiliedig ar atal Iechyd Cyhoeddus Cymru yn galw am newid pendant tuag at atal mewn iechyd a gofal:
  - » Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal
  - » Blaenoriaethu atal
- **Teg a chymesur –** mae dangosyddion allweddol yng Nghymru yn dangos anghydraddoldebau parhaus mewn canlyniadau iechyd ymhlith ein poblogaeth: Llesiant Cymru 2024. Er bod llawer o achosion, mae mynediad anghyfartal at ofal iechyd, a gofal iechyd nad yw o bosibl yn diwallu anghenion y boblogaeth y mae'n ei gwasanaethu, yn chwarae rhan gyfrannol. Fel un o chwe pharth Dyletswydd Ansawdd Cymru, gofal iechyd teg yw un o ofynion Dyletswydd Ansawdd mewn gofal iechyd Cymru, ond mae llawer i'w wneud i'w ddeall, ei fesur a chyflawni gwasanaethau gofal iechyd sy'n diwallu anghenion y rhai sydd fwyaf mewn angen. Enghraifft o gymorth yn hyn o beth yw'r offer y mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi'i ddatblygu i helpu Gofal Sylfaenol i nodi ffyrdd o leihau anghydraddoldebau iechyd: Lleihau Anghydraddoldebau Iechyd drwy Ofal Sylfaenol - Gofal Sylfaenol Un

  Mae cymesur yn ffordd o ddangos effeithlonrwydd gwasanaethau gofal iechyd, sy'n ymwneud â sut rydym yn defnyddio adnoddau mewn ffyrdd sy'n gwneud y gorau o'r canlyniadau a ddymunir, heb beryglu ansawdd. Mae Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru a chynllun gweithredu (Gwerth mewn Iechyd) yn darparu canllawiau, gwaith cydlynu a chymorth i Fyrddau Iechyd ynghylch gwella effeithlonrwydd a chanlyniadau yn ein rhaglenni, llwybrau ac ymyriadau gofal iechyd
- **Mae ymchwil wedi'i llywio gan dystiolaeth ac sy'n llywio tystiolaeth** yn tynnu sylw at bwysigrwydd dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth mewn gofal iechyd, ar lefel ymyriadau unigol, ac ar lefel y llwybr a'r rhaglen. Mae'r maes Gwerth hefyd yn cyfrannu yn hyn o beth, gan gynnwys cefnogi dulliau sy'n galluogi blaenoriaethu ymyriadau mewn llwybrau sydd â'r effaith orau ar y boblogaeth sy'n cael ei hystyried. Mae ymchwil sy'n llywio tystiolaeth yn tynnu sylw at bwysigrwydd partneriaeth gref â'r sector academaidd, yn ogystal â phwysigrwydd arwain a chymryd rhan mewn ymchwil fel treialon clinigol.
- **Ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid:** mae'r egwyddor hon wedi bodoli ers tro byd ym maes gofal iechyd ac ym maes iechyd y cyhoedd, ond nid yw bob amser yn hawdd i'w chyflawni. Ar gyfer cymunedau lleol, clinigol a disgyblaethau eraill, mae hi'n bwysig nid yn unig oherwydd y gwahaniaeth y gall ei wneud i wella gwasanaethau, ond hefyd yn y ffaith y gall y broses ymgysylltu ynddi ei hun gael effaith ar les y rhai sy'n cymryd rhan – 'lasting change happens when people drive their own transformation' (WHO Community engagement for quality health services 2024). Clinigol – ar draws disgyblaethau, mae ymgysylltiad rheolwyr a thimau mewn gofal iechyd yn hanfodol – mae'n effeithio ar gymhelliant a lles unigolion a thimau, ansawdd gwasanaethau, a gall hefyd wella perfformiad sefydliadol bma-engagement-within-the-nhs-brief-september-2024.pdf

### Yr effeithiau a fwriadwyd o weithredu'r dull hwn

Mae'r Fframwaith hefyd yn dangos y set eang o ganlyniadau y mae dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn cyfrannu tuag at Gymru Iachach a pholisïau a strategaethau perthnasol eraill Llywodraeth Cymru a gafodd eu trafod yn gynharach.

## Rhan 2 - Gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd

Mae ail ran y fframwaith yn darparu pedwar prif faes gweithredu ym maes gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn fanylach, ynghyd ag ystod o ystyriaethau a sgiliau technegol ar gyfer pob un **(Ffigur 4)**, er enghraifft:

- **Cynllunio yn seiliedig ar anghenion –** tynnir sylw at bwysigrwydd cynnwys pobl sy'n derbyn y gwasanaethau iechyd dan sylw yn y broses, lle y bo modd. Mae hefyd yn tynnu sylw at segmentu a haenu poblogaeth fel dull allweddol y gellir ei ddefnyddio i dargedu'r ymyriadau cywir gyda'r boblogaeth gywir, yn ogystal â thynnu sylw at y ffaith y dylai nodi anghydraddoldebau iechyd fod yn elfen graidd o gynllunio sy'n seiliedig ar anghenion
- **Blaenoriaethu wrth wneud penderfyniadau –** nodir rhai o'r ystyriaethau a ddylai lywio penderfyniadau ar flaenoriaethau rhwng gwasanaethau neu ymyriadau gofal iechyd, megis graddfa'r budd i iechyd y boblogaeth a'r effaith y gallai'r gwasanaethau gofal iechyd dan ystyriaeth ei chael ar y boblogaeth. Cydnabyddir yr anhawster mewn perthynas â defnyddio egwyddorion blaenoriaethu mewn meysydd gofal iechyd mawr, cymhleth a phrysur. Serch hynny mae'r GIG yn atebol am y penderfyniadau blaenoriaethu y mae'n eu gwneud, a'r egwyddorion sy'n sail i'r penderfyniadau hynny. Mae llawer o'r egwyddorion hyn yn cael eu darlunio'n gyson yn y llenyddiaeth yn rhai pwysig ar gyfer pennu blaenoriaethau.
- **Adolygiadau gwasanaethau a llwybrau gofal –** mae yna ddulliau a phrosesau eglur y gellir eu defnyddio wrth adolygu gwasanaeth neu ddatblygu gwasanaeth. Rhestrir y rhannau allweddol yma, a thynnir sylw at ddefnyddioldeb offer sy'n seiliedig ar werthoedd i helpu
- **Gwerthuso a dysgu –** mae'r thema hon yn cynnwys y mathau o fesuriadau sy'n bwysig wrth ddefnyddio lens poblogaeth. Mae hefyd yn nodi bod rôl prosesau cylchol, gan gynnwys methodoleg gwella ansawdd, yn allweddol wrth fesur a datblygu gofal iechyd. Pwysleisir pwysigrwydd cysylltu â'r byd academaidd a chynnal ymchwil a chyfrannu ato.



**Ffigur 4** Fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd Rhan 2 - Gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd

**Asesiad o Anghenion wrth gynllunio a chyflawni**

- Dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n seiliedig ar ddata
- Mewnwelediad y gymuned ac ymgysylltu â'r gymuned
- Pwysleisio cyfleoedd ar gyfer atal
- Segmentu a haenu poblogaeth
- Nodi anghydra - ddoldebau
- Dyraniad cymesur o adnoddau yn ôl yr anghenion

**Blaenoriaethu wrth wneud penderfyniadau**

- Egwyddorion a dulliau blaenoriaethu:
  - Yn effeithiol yn glinigol
  - Mesur a chymharu'r budd iechyd a'r effaith ar iechyd y boblogaeth
  - Dulliau Economeg Iechyd – cost-effeithiol a fforddiadwy
  - Profiad y claf
- Dulliau ac offer sy'n seiliedig ar werthoedd

**Adolygiadau gwasanaethau a llwybrau gofal**

- Proses aml-gam
- Hwyluso arweinyddiaeth glinigol
- Gwasanaethau ac ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth
- Nodi amrywiad cadarnhaol a negyddol
- Dadansoddiad bwlch
- Archwiliad tegwch iechyd
- Gwerthuso opsiynau
- Ymarfer sy'n amgylcheddol gynaliadwy
- Dulliau ac offer sy'n seiliedig ar werthoedd

**Gwerthuso a dysgu**

- Canlyniadau proses, clinigol a phoblogaeth, a gwerthusiadau effaith
- Datblygu a monitro metrigau sy'n canolbwyntio ar y boblogaeth
- Gwella ansawdd yn barhaus
- Cydweithio ar gyfer ymchwil mewn meysydd blaenoriaeth
- Cysylltiadau â'r byd academaidd

## Phan 3 - Offer, rolau a chyfrifoldebau ac enghreifftiau ymarferol i helpu sefydliadau i ganfod y gweithgareddau allweddol sydd eu hangen arnynt

Mae set fer o gwestiynau wedi'i llunio i gefnogi'r rhai sy'n gweithio ym maes gofal iechyd yn genedlaethol neu'n lleol i nodi ffyrdd y gallent gryfhau eu dull o weithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd **(Ffigur 5)**.

**Ffigur 5** **Cwestiynau i sefydliadau a thimau'r GIG eu gofyn**

| Themâu gofal iechyd iechyd y cyhoedd | Cwestiynau |
|---|---|
| Asesiad o Anghenion wrth gynllunio a chyflawni | • Ym mha ffyrdd y gellid cryfhau eich dull o gynllunio yn seiliedig ar anghenion? |
| Blaenoriaethu wrth wneud penderfyniadau | • Pa egwyddorion blaenoriaethu ydych chi'n eu defnyddio wrth wneud penderfyniadau allweddol?*** Sut gellid cryfhau'r defnydd ohonynt?<br>• Pa benderfyniadau allweddol ydych chi wedi'u gwneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a fydd â'r budd gorau i iechyd y boblogaeth?<br>• Sut gallech chi gryfhau cydbwysedd eich buddsoddiad sefydliadol, rhaglennol neu adrannol rhwng gwasanaethau neu ymyriadau ysbyty, cymunedol ac ataliol?<br>• Pa gyfleoedd sydd gennych yn y tymor canolig i symud adnoddau i fyny'r gadwyn, er mwyn cael mwy o effaith ar iechyd y boblogaeth? |
| Adolygiadau gwasanaethau a llwybrau gofal | • Sut mae lens ac arbenigedd iechyd y boblogaeth yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau a datblygiadau gwasanaethau mawr?<br>• Pa adolygiadau/datblygiadau gwasanaethau ydych chi'n eu cynllunio a allai fod â'r budd gorau i iechyd y boblogaeth? |
| Gwerthuso a dysgu | • Sut gallech chi olrhain maint yr effaith ar ganlyniadau clinigol ac iechyd dros amser?<br>• A oes sefydliadau academaidd neu bartneriaethau academaidd-gymhwysol mewn mannau eraill yn y DU yn datblygu modelau a allai helpu i asesu a thargedu'r boblogaeth gywir gyda'r ymyrraeth gywl |

*** hyder mewn tystiolaeth glinigol; natur a maint y budd iechyd/nifer yr unigolion sy'n cael budd; statws blaenoriaeth - cenedlaethol/lleol; mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd gan gynnwys o ran mynediad a chanlyniad; cost-effeithiolrwydd a fforddiadwyedd cymharol; hygyrchedd



Mae **pecyn cymorth ar y we** wedi'i lunio, sydd wedi'i gynnal yn Gofal Sylfaenol Un, sy'n cynnwys offer ar gyfer pob un o bedair thema'r Fframwaith, yn ogystal ag enghreifftiau ymarferol o Gymru a rhannau eraill o'r DU **(Ffigur 6)**. Gellir datblygu'r pecyn cymorth hwn ymhellach dros amser. Mae darllen pellach i'w gael yn atodiad 3.

**Ffigur 6** **Pecyn cymorth fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd**

Mae'r pecyn cymorth hwn yn dwyn ynghyd nifer o offer a fframweithiau y gellid eu defnyddio ar eu pen eu hunain neu ar y cyd i gefnogi lleoliadau, systemau a phartneriaethau gofal iechyd i asesu a gwneud y gorau o'u gwasanaethau gyda lens poblogaeth.

Mae'r pecyn cymorth yn adnodd i helpu i nodi tueddiadau, anghenion, a gwahaniaethau o fewn cymunedau, ac i gefnogi cynllunio a chyflawni effeithiol a gwneud y defnydd mwyaf effeithlon o adnoddau. Ni fwriedir i'r offer sydd ynddo fod yn rhagnodol ond, yn hytrach, bod yn ganllaw i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud mewn ffordd systematig.



## Rolau a chyfrifoldebau

Crynhoir rolau a chyfrifoldebau mewn dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, o bolisi i gyflawni **(Ffigur 7).**

**Ffigur 7** **Rolau a chyfrifoldebau mewn dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd**

| Y Canlyniad a Ddymunir | Mae Cymru'n defnyddio dull gofal iechyd | | iechyd y cyhoedd Dull iechyd o bolisi i gyflawni - rolau a chyfrifoldebau eglur | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Beth sydd angen ei roi ar waith?** | Dull iechyd y boblogaeth eglur a chyfannol wedi'i wreiddio ym mholisi a strategaeth GIG Cymru | Cynllunio yn seiliedig ar anghenion yn amlwg drwy gydol Fframwaith Cynllunio GIG Cymru a Chynlluniau Tymor Canolig Integredig sefydliadol | Blaenoriaethu wrth wneud penderfyniadau ar gyfer cyflawni sy'n arwain at y budd iechyd gorau a'r effaith gymdeithasol fwyaf; a Gwerth | Mae mecanweithiau perfformiad yn cynnwys canolbwyntio ar gyflawni iechyd y boblogaeth ym mhob rhaglen, gwasanaeth a rhaglen integredig fawr | Adolygiadau a thrawsnewid gwasanaethau:<br>- Rhaglenni mawr<br>- Gofal a gynlluniwyd<br>- Gofal heb ei drefnu<br>- Rhwydweithiau clinigol (cyrhaeddiad mwyaf o ran poblogaeth; y budd clinigol ac iechyd gorau) | Gwerthuso a dysgu |
| **Pwy sydd angen arwain ar y gwaith?** | Llywodraeth Cymru | **Cenedlaethol:** Llywodraeth Cymru<br>**Lleol:** Byrddau Iechyd; Ymddiriedolaethau a'u his-adrannau a'u cyfarwyddiaethau | **Cenedlaethol:** Llywodraeth Cymru; aPherfformiad a Gwelliant GIG Cymru<br>**Lleol:** Byrddau Iechyd; Ymddiriedolaethau | Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru | **Cenedlaethol:** Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru, arweinwyr strategol a chlinigol<br>**Lleol:** Byrddau Iechyd, is-adrannau a chyfarwyddiaethau | **Cenedlaethol:** Llywodraeth Cymru a Pherfformiad a Gwelliant GIG Cymru<br>**Lleol:** Byrddau Iechyd; Ymddiriedolaethau a'u his-adrannau a'u cyfarwyddiaethau |
| **Beth yw Rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru?** | Cyngor ac eiriolaeth i Lywodraeth Cymru ar bolisi a strategaeth<br><br>Darparu offer a dulliau a chymorth i gydweithwyr y system. Galw'r system ynghyd i rannu dysgu a defnyddio hyn ar gyfer gwella | Cyngor technegol ar ddata Asesiadau o Anghenion Iechyd cenedlaethol; sganio'r gorwel<br><br>Cyngor a chymorth i gyrff gofal iechyd (e.e. gwaith 2025 ar adolygiad llwybr CAMHS) | Cyngor, eiriolaeth, tystiolaeth ar y meysydd budd iechyd a chymdeithasol gorau Cyngor a chymorth i gyrff Gofal Iechyd (e.e. gwaith 2025 ar adolygiad llwybr Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed [CAMHS]) | Cyngor ar beth i'w fesur; dangosyddion<br><br>Cyngor a chymorth i gyrff Gofal Iechyd (e.e. gwaith 2025 ar adolygiad llwybr CAMHS ) | Cyngor technegol ac arbenigedd ar angen, llwybrau a manylebau. Rôl gyd-gynhyrchu gydag arweinwyr lleol ar gyfer meysydd blaenoriaeth<br><br>Cyngor a chymorth i gyrff Gofal Iechyd (e.e. gwaith 2025 ar adolygiad llwybrCAMHS ) | Cyngor; arbenigedd technegol; ymchwil; cysylltiadau â'r byd academaidd a phartneriaethau ymchwil yn y DU/yn rhyngwladol<br><br>Cyngor a chymorth i gyrff Gofal Iechyd (e.e. gwaith 2025 ar adolygiad llwybr CAMHS) |
| **Beth yw'r sefyllfa bresennol?** | • Mae angen cryfhau dull gweithredu iechyd y boblogaeth<br>• Llai o ffocws ar hyn o bryd ar gynnydd ac atal | • Anghenion cynllunio seiliedig ar anghenion wedi'u diweddaru yn fframwaith y GIG a'u cryfhau mewn Cynlluniau Tymor Canolig Integredig lleol | • Nid yw iechyd y boblogaeth ar gyfer y budd clinigol, iechyd a chymdeithasol gorau yn cael blaenoriaeth ar hyn o bryd. | • Maes perfformiad y GIG dan ddylanwad heriau'r GIG, gan gynnwys perfformiad rhestr aros | • Arbenigedd iechyd y boblogaeth cyfyngedig sydd ar gael ac sy'n cael ei weithredu mewn llawer o feysydd pwysig | • Angen cryfhau |

# Rôl iechyd y cyhoedd arbenigol

Mae'r Cyfadran Iechyd y Cyhoedd wedi cyhoeddi swyddogaethau hanfodol system iechyd y cyhoedd, gan gynnwys gofal iechyd iechyd y cyhoedd. Mae'n mynegi'r safonau i'w disgwyl, a'r mathau o gyfraniad y gellid eu gwneud, gan y gweithlu iechyd y cyhoedd arbenigol.

Ochr yn ochr ag amrywiaeth o ddisgyblaethau a rolau eraill yn y GIG, gellir gwneud cyfraniadau iechyd y cyhoedd arbenigol at ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn y meysydd canlynol:

- **Comisiynu gwasanaethau iechyd effeithiol a chost-effeithiol Datblygu a chynllunio gofal iechyd**
- **Blaenoriaethu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol Tegwch o ran cyflenwi gwasanaethau**
- **Llywodraethu clinigol a gwella ansawdd Archwilio, gwerthuso ac ymchwil gofal iechyd Cyfrannu at systemau diogelwch cleifion**
- **Cyfrannu at arweinyddiaeth ym maes gofal iechyd**

Yn ymarferol, gall arbenigwyr iechyd y cyhoedd gefnogi gofal iechyd y boblogaeth drwy, er enghraifft:

- **Darparu'r dystiolaeth a'r deallusrwydd data (lle mae ar gael) er mwyn cefnogi penderfyniadau a datblygiadau** drwy asesiadau o anghenion; adolygiadau gwasanaethau; nodi anghydraddoldebau iechyd; asesiadau o'r effaith ar iechyd ac archwiliadau tegwch iechyd
- **Darparu'r offer ar gyfer trawsnewid gwasanaethau'n effeithiol** - er mwyn helpu i benderfynu ar flaenoriaethau; wrth gynllunio capasiti a rheoli'r galw; wrth ddatblygu modelau gofal dan arweiniad clinigol; er mwyn cynllunio ac ailgynllunio gwasanaethau; wrth ymgysylltu â'r cyhoedd a chymunedau; er mwyn gwerthuso opsiynau; mewn dulliau systemau; wrth gefnogi datblygu achosion busnes a'r achos dros newid; wrth gaffael gwasanaethau
- **Datblygu asesiad effeithiol o effaith a chanlyniadau** drwy gael cyngor ar gynllunio monitro a gwerthuso, datblygu canlyniadau poblogaeth, clinigol a chleifion, a chefnogi gwerthuso ac ymchwil gyda'r sector academaidd



Mae rhagor o wybodaeth am sut y gall arbenigwyr iechyd y cyhoedd weithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yma. Cafodd fframwaith datblygu mwy manwl i gefnogi gwella ansawdd cyngor iechyd y cyhoedd i systemau iechyd a gofal ei lunio ar gyfer Lloegr ar y cyd gan Iechyd Cyhoeddus Lloegr a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd. Gall llawer iawn o'r egwyddorion a'r arferion ynddo fod yn berthnasol i Gymru, er bod y dirwedd bolisi yn wahanol iawn.

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith, o ystyried pa mor eang yw ymarfer iechyd y cyhoedd, efallai bod angen blaenoriaethu cynnwys arbenigwyr iechyd y cyhoedd mewn meysydd gwaith gwahanol gyda chydweithwyr a phartneriaid a'i gynllunio dros amser.




# Yr ystod o gyfraniadau at ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru

Mae yna lawer o feysydd gwaith yng Nghymru eisoes yn cyfrannu at ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd mewn gwasanaethau gofal iechyd, sydd wedi'i ddatblygu gan arweinwyr a thimau gwahanol yn genedlaethol ac yn lleol. Mae **Ffigur 8** yn dangos rhai o'r fframweithiau polisi gofal iechyd cenedlaethol presennol yng Nghymru ac yn egluro beth mae pob maes yn ceisio'i gyflawni:

## 6 pharth Dyletswydd Ansawdd

Mae'r rhain yn ganolog i ddull gofal iechyd iechyd y cyhoedd ond nid ydynt, ar eu pen eu hunain, yn cynnwys yr holl agweddau sydd eu hangen ar gyfer dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd effeithiol








## Fframwaith iechyd a gofal seiliedig ar atal

Darparu dull i edrych ar sut y gellir cynnwys atal mewn cynlluniau ac wrth gyflawni, a hefyd sut y gallwn newid gwasanaethau i ganolbwyntio'n fwy i fyny'r gadwyn

## Fframwaith lleihau anghydraddoldebau drwy ofal sylfaenol a gofal yn y gymuned

Mae hon yn ffordd o helpu cydweithwyr a thimau i feddwl am sut maent yn asesu a oes anghydraddoldebau yn bodoli yn eu maes gwaith a sut y gallent fynd ati i ymchwilio iddynt a mynd i'r afael â nhw





## Gwerth mewn dull gofal iechyd a chynllun gweithredu

Mae'r dull hwn, y cynllun gweithredu, a mentrau a gweithredu lleol yn cyfuno cost, ansawdd a chanlyniadau er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaethau cywir i gyflawni'r canlyniadau cywir yn y lleoedd cywir

Canolfan Gwerth mewn Iechyd Cymru
Welsh Value in Health Centre




## Gofal iechyd sy'n amgylcheddol gynaliadwy

Cefnogi gwelliannau mewn gofal iechyd, drwy bartneriaeth, er mwyn cyflawni uchelgais Sero Net Cymru

## Rheoli Iechyd y Boblogaeth

Ffordd o ddefnyddio setiau data (cysylltiedig) i nodi, pennu lefel risg a thargedu camau gweithredu priodol gyda phoblogaethau i wella iechyd



Mewn systemau gofal iechyd cymhleth, gellir defnyddio pob un o'r meysydd hyn i gynllunio, gwella a thrawsnewid gwasanaethau, gan gyfrannu mewn gwahanol ffyrdd at wella canlyniadau clinigol ac iechyd ac at leihau anghydraddoldebau iechyd ymhlith ein poblogaeth. Ni ddylid eu defnyddio mewn seilos, ond gallent ychwanegu gwerth at ei gilydd gan ddibynnu ar y cyd-destun; canolbwynt polisi; neu'r gwaith cynllunio neu adolygu gwasanaeth sy'n cael ei ystyried.

Ffigur 8

## Dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd fel ymbarél sy'n cynnwys gwaith sefydledig ac esblygol

### Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal

- Cyfrwng i roi polisi ar waith a chyflawni newid pendant tuag at atal ar draws y system iechyd a gofal
- Nod Fframwaith Iechyd a Gofal Seiliedig ar Atal yw rhoi'r cyfle i atal gael ei wreiddio gan y rhai sy'n ymwneud â chynllunio strategol a gweithredol; cynllunio a gweithredu llwybrau gwasanaeth; gwella ansawdd a darpariaeth gofal rheng flaen; ac arwain ar drawsnewid a chyflawni gwasanaethau
- Tynnu sylw at yr angen i fynd i'r afael â gallu, cyfleoedd a chymhelliant y gweithlu wrth arwain/ cyflawni camau ataliol

### Lleihau Anghydraddoldebau drwy Ofal Sylfaenol a Gofal yn y Gymuned

- Ymgysylltu â phartneriaethau a dylanwadu arnynt i wella dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd, drwy ddarparu data a thystiolaeth, a'u cyfeirio at hyfforddiant
- System yn gweithio i ddatblygu diwylliant o chwilfrydedd ynghylch ble a pham mae anghydraddoldebau iechyd a hyrwyddo camau gweithredu cymesur
- Cefnogi adnabod angen drwy gydweithio â phobl sydd â phrofiad bywyd a'r rhai ar y rheng flaen ac mewn cymunedau
- Cyd-gynhyrchu datrysiadau gyda phobl sydd â phrofiad bywyd

### Gwerth mewn Iechyd

- Athroniaeth, polisi a chynllun gweithredu pendant sy'n cael eu cyflwyno gan Fyrddau Iechyd ledled Cymru, yn seiliedig aregwyddorion gofal iechyd darbodus
- Cost - Ansawdd - Canlyniad
- Canolbwyntio ar ddatblygu mesur canlyniadau (PROMs / PREMs)
- Defnyddio data i gefnogi gwella gwasanaethau gofal iechyd a gwerth i gleifion; mesur a dadansoddi costau; amrywiad diangen; cyllidebu rhaglenni a dadansoddiad ymylol
- Cefnogi arweinwyr i fod yn stiwardiaid adnoddau drwy ddylanwadu ar ofal gwerth uchel ar gyfer y poblogaethau y maent yn gofalu amdanynt

### Iechyd a gofal cynaliadwy yn amgylcheddol, e.e. Gofal Sylfaenol Gwyrddach

- Yn fyd-eang, mae'r sector gofal iechyd yn gyfrifol am tua 4-5% o allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Mae Gofal Sylfaenol Gwyrddach yn cefnogi'r pedwar gwasanaeth contractwyr gofal sylfaenol annibynnol yng Nghymru i wella cynaliadwyedd amgylcheddol eu harferion o ddydd i ddydd ac i gyrraedd targedau datgarboneiddio Llywodraeth Cymru
- Eiriol dros nifer fawr o bobl yn gwneud newidiadau bach, gan y bydd hyn yn cael effaith fwy cyffredinol na nifer fach o bobl yn gwneud newidiadau mawr
- Mae'r gwaith yr un mor berthnasol i'r system gofal iechyd ehangach a'r system iechyd a gofal integredig

### Rheoli Iechyd y Boblogaeth

- Cynllunio a darparu gofal rhagweithiol sy'n seiliedig ar ddata i sicrhau'r effaith fwyaf ar iechyd a lles y boblogaeth
- Tynnu sylw at ddull tymor byr i hirdymor ar gyfer datblygu proses rheoli iechyd y boblogaeth yng Nghymru
- Eiriolwyr dros weithredu ar y cyd - mae iechyd a gofal yn rhannu dull iechyd y boblogaeth cydlynol; pwyslais cryf ar setiau data cysylltiedig, ar lefel yr unigolyn ar gyfer y boblogaeth gyfan i alluogi segmentu, pennu lefel risg
- Canolbwyntio ar atal a lles cymunedol



# Sut gallem ni gryfhau'r system gofal iechyd gan ddefnyddio dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru?

Drwy ystyried sut olwg sydd ar dda wrth fabwysiadu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, siarad â chydweithwyr a phartneriaid yng Nghymru a rhannau eraill o'r DU - sy'n cynnwys arbenigwyr iechyd y cyhoedd ac amrywiaeth o gydweithwyr eraill - a llunio fframwaith gofal iechyd iechyd y cyhoedd, mae elfennau yn y system wedi'u nodi y gellid eu cryfhau i fynd i'r afael â bylchau eglur.

Byddai'r rhain yn gwneud byd o wahaniaeth i gryfhau ein dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru:

- **Dull** gofal iechyd iechyd y cyhoedd **cryfach o** ran **polisi, cynllunio, dyrannu adnoddau a pherfformiad** y GIG
- **Dull cydgysylitiedig cryfach** rhwng **arbenigwyr iechyd y cyhoedd cenedlaethol a lleol,** gan weithio ar enghreifftiau effaith uchel, gyda'r defnydd gorau o'r setiau sgiliau ac adnoddau priodol
- **Dull cydgysylltiedig** o ran gofal iechyd y cyhoedd ar draws **cyfarwyddiaethau lechyd Cyhoeddus Cymru**
- Arbenigedd iechyd y cyhoedd cryfach ym **meysydd mawr Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru** lle mae bylchau - Gofal a Gynlluniwyd; Gofal Brys ac Argyfwng; Ansawdd, Gwella a Diogelwch Cleifion; Rhwydweithiau Clinigol
- **Seilwaith cymorth craidd yn y mannau cywir** - cefnogi Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru yn genedlaethola chefnogi Byrddau lechyd Lleol yn lleol: economeg iechyd; setiau data cryfach; dealluswydd a modelu data iechyd y boblogaeth
- **Cryfhau bylchau o ran capasiti a gallu yn y system** arbenigol a generig, yn benodol dadansoddi data, modelu, mewnbwn economeg iechyd, adolygiadau tystiolaeth ar gyfer adolygiadau/ trawsnewid gwasanaethau, uwchsgilio timau gofal iechyd perthnasol iw cefnogi i fabwysiadu dull iechyd y boblogaeth



## Argymhellion strategol i ddatblygu a gwreiddio'r fframwaith hwn ymhellach

Mae'r gwaith hwn a nodi ffyrdd o gryfhau'r system wedi arwain at yr argymhellion strategol canlynol:

1. Cryfhau dealltwriaeth, gallu a gweithrediad ymarferol mewn rolau a swyddogaethau strategol ar draws y system gofal iechyd wrth fabwysiadu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd
2. Cryfhau capasiti a gallu yn y system gofal iechyd iechyd y cyhoedd arbenigol er mwyn cynghori ar, a chefnogi, cyflwyno dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd
3. Cyd-gynhyrchu map ffordd a chamau ar gyfer gweithredu dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd yn ymarferol, er mwyn cyflawni gwelliannau pendant tuag at system iechyd a gofal

Gellir gweld set awgrymedig o feysydd gweithredu ar gyfer pob argymhelliad strategol yn atodiad 2.

GIG CYMRU NHS WALES

# Diolchiadau

## ATODIAD 1

### AWDURON

Awdur arweiniol y gwaith hwn oedd Fiona Kinghorn, gyda chymorth Rachel Andrew ac Anup Karki; Is-adran Gofal Sylfaenol, Iechyd Cyhoeddus Cymru

### SGYRSIAU YMGYSYLLTU

Diolch yn fawr i'r holl gydweithwyr a phartneriaid a roddodd eu mewnwelediadau a'u mewnbwn gwerthfawr i ddatblygiad y fframwaith hwn ar gyfer gofal iechyd iechyd y cyhoedd yng Nghymru:

**Byrddau Iechyd**

- Cyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd
- Cyfarwyddwyr Gweithredol Cynllunio
- Cyfarwyddwyr Meddygol Gweithredol
- Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, Gwyddonwyr Iechyd a Datblygu Gwasanaethau Cymunedol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
- Ymgynghorwyr Iechyd y Cyhoedd, Timau Iechyd y Cyhoedd Lleol
- Pennaeth Ymarfer Clinigol Effeithiol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

**Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol**

- Cyfarwyddwr Integreiddio Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, Caerdydd a'r Fro

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**

- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Lles
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwasanaethau Diogelu Iechyd a Sgrinio; Cyfarwyddwr Meddygol
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Polisi ac Iechyd Rhyngwladol
- Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd a Nyrsio
- Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol a Chyfarwyddwr Rhaglen ar gyfer y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol
- Aelodau'r Tîm Gweithredol Busnes Strategol
- Pennaeth Strategaeth, Cynllunio a Materion Corfforaethol
- Ymgynghorwyr mewn Iechyd y Cyhoedd/ Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd ac Arweinwyr Tîm, ar draws Cyfarwyddiaethau
- Cofrestrydd Iechyd y Cyhoedd, Cyfarwyddiaeth Gofal Sylfaenol
- Tîm Gwyddonwyr Data, Cyfarwyddiaeth Ymchwil, Data a Digidol
- Tîm Economeg a Gwerth Iechyd y Cyhoedd, Cyfarwyddiaeth Polisi ac Iechyd Rhyngwladol

**Llywodraeth Cymru**

- Cyfarwyddwr – Iechyd y Cyhoedd
- Cyfarwyddwr - Cynllunio
- Prif Swyddog Digidol
- Dirprwy Gyfarwyddwr - Gwella Iechyd y Cyhoedd
- Pennaeth Anghydraddoldebau Iechyd a Chymunedau Iach



**Perfformiad a Gwelliant GIG Cymru a Rhwydweithiau Clinigol**

- Cyfarwyddwr Clinigol Cenedlaethol ar gyfer Arweinwyr a Rhwydweithiau Clinigol Cenedlaethol
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Rhwydweithiau a Chynllunio
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol Digidol, Technoleg, Arloesedd a Gwerth, a Thîm Gwerth mewn Iechyd
- Cyfarwyddwr Cenedlaethol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r tîm
- Ymgynghorwyr Meddygaeth Iechyd y Cyhoedd
- Arweinydd Nod 1, Rhaglen Genedlaethol y Chwe Nod ar gyfer Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng
- Pennaeth Ansawdd a Diogelwch Strategol; Arweinydd Hwb Gwella ac Arloesi, a Rheolwr Gwella Gwasanaeth Iechyd Meddwl Cenedlaethol; Cyfarwyddiaeth Ansawdd, Diogelwch a Gwella

**Conffederasiwn GIG Cymru**

- Cyfarwyddwr

**Cyrff cenedlaethol eraill Cymru**

- Ymgynghorydd Gweithredu Cymru, Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal

**Arbenigwyr allanol (Lloegr a'r Alban)**

- Cadeirydd, Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd, Cyfadran Iechyd y Cyhoedd
- Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, GIG Lloegr
- Pennaeth y Tîm Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol, GIG Lloegr
- Rheolwr Polisi Iechyd y Cyhoedd, Tîm Iechyd y Cyhoedd Cenedlaethol, GIG Lloegr
- Dirprwy Gyfarwyddwr Rhaglenni Iechyd Rhanbarthol De-orllewin Lloegr, GIG Lloegr (cyn Lywydd, Cyfadran Iechyd y Cyhoedd)
- Llywydd, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Cyngor Dinas Sheffield
- Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Cyngor Dinas Portsmouth a Grŵp Ymgynghorol Polisi y GIG Cymdeithas Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd (ADPH), Systemau Gofal Integredig a Gofal Cymdeithasol
- Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd, Bwrdd Iechyd Forth Valley ac Arweinydd Gofal Iechyd Iechyd y Cyhoedd ar gyfer Cyfarwyddwyr Iechyd y Cyhoedd yr Alban
- Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Iechyd Cyhoeddus yr Alban a Bwrdd Iechyd Tayside

## **ATODIAD 2** ARGYMHELLION STRATEGOL – MEYSYDD GWEITHREDU AWGRYMEDIG

### ARGYMHELLIAD 1

**Cryfhau dealltwriaeth a gallu mewn rolau a swyddogaethau strategol:**

- Arweinyddiaeth ac eiriolaeth gysylltiedig gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd yn y maes hwn
- Nodi cyfleoedd ymarferol, a gweithio arnynt, mewn Byrddau Iechyd ac ym maes cynllunio, rhwydweithiau a rhaglenni cenedlaethol
- Offer, adnoddau a chymorth 'Unwaith i Gymru', sydd ar gael ar-lein, i gefnogi partneriaid i ddefnyddio dull poblogaeth mewn penderfyniadau allweddol a gwaith datblygu/trawsnewid gwasanaethau

### ARGYMHELLIAD 2

**Cryfhau capasiti a gallu yn y gweithlu iechyd y cyhoedd arbenigol:**

- Sefydlu modus operandi rhwng Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfarwyddwyr Gweithredol Iechyd y Cyhoedd gan gynnwys rolau a chyfrifoldebau penodol
- Nodi cyfleoedd adnoddau ar lefel leol a chenedlaethol er mwyn darparu cymorth a chamau gweithredu ymarferol (e.e. ar gyfer asesu anghenion; blaenoriaethu dyrannu adnoddau; adolygiadau a thrawsnewid gwasanaethau; gwaith ynghylch tegwch)
- Gweithio gyda phartneriaid (y byd academaidd ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru) er mwyn datblygu cyfleoedd hyfforddi a datblygu sgiliau ar gyfer arbenigwyr Iechyd y Cyhoedd a meysydd allweddol ehangach y GIG/integreiddio
- Sefydlu ac arwain cymuned ymarfer mewn dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, gan gynnwys cyfleoedd ar gyfer profiad ymarferol ar draws y system GIG/integreiddio yng Nghymru

### ARGYMHELLIAD 3

**Cyd-gynhyrchu map ffordd a chamau ar gyfer:**

- Nodi ymyriadau gwerth uchel sy'n cefnogi canolbwyntio adnoddau (ariannol, y gweithlu) ar atal ac ymyrraeth gynnar a lleihau anghydraddoldebau iechyd
- Cryfhau llywodraethu ac atebolrwydd ar gyfer dull gofal iechyd iechyd y cyhoedd, gan gynnwys yn unol â fframwaith cynllunio'r GIG, mesurau perfformiad a gweithredu deddfwriaeth berthnasol, e.e. y Ddyletswydd Ansawdd; Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol



## **ATODLEN 3** CYFEIRIADAU A DARLLEN PELLACH

Rhestrir adnoddau pellach, yn ogystal â'r rhai y cyfeirir atynt yn y ddogfen, yma.


1. Alilio M et al (2022) **Strategies to Promote Health System Strengthening and Global Health Security at the Subnational Level in a World Changed by COVID-19 | Global Health: Science and Practice** 10(2): e2100478
2. Atsma F et al (2020) **Understanding unwarranted variation in clinical practice: a focus on network effects, reflective medicine and learning health systems - PMC** Int J Qual Health Care Apr 18; 32(4) 271-274
3. Bloland P **The Role of Public Health Institutions in Global Health System Strengthening Efforts: The US CDC's Perspective - PMC** PloS Med 3; 9(4)
4. Boyer B et al (2024) **Advancing the future of equitable access to health care: recommendations from international health care leaders | Health Affairs Scholar | Oxford Academic** 2(8): August 2024
5. Buck D & Murray R (2021) **Public Health And Integrated Care Reform: Doing The Knitting | The King's Fund**
6. Buck et al (2024) **Public health and Population Health: Leading Together** The King's Fund
7. Cogan J (2023) **What is Public Health?** Faculty of Public Health
8. Adran Iechyd Lloegr (2012) **Guidance to support the provision of healthcare public health advice to CCGs**
9. Yr Arsyllfa Ewropeaidd ar Systemau a Pholisïau Iechyd **Health Systems in Transition series (HiTs)**
10. Cyfadran Iechyd y Cyhoedd (2016) Healthcare Public Health in England: Capacity and Capability Review Health Services Committee
11. Cyfadran Iechyd y Cyhoedd Health Services Committee (2017) Definition and application of the public health function **hcph-definition-final.pdf**
12. Fenton K (2024) **Maximising Public Health's impact in the NHS** www.youtube.com (accessed 16/04/24)
13. Gardner T (2023) **The complexities of using international comparisons to guide NHS reform | The Health Foundation**
14. Gray M & R M (2022) Population health management: how to design and deliver population healthcare Offox Press Ltd.
15. Gulliford M & Jessop E (Eds) (2020) Healthcare Public Health: Improving services through population science Gwasg Prifysgol Rhydychen (cyrchwyd drwy e-lyfrgell y GIG)
16. Halfon N et al (2014) Applying a 3.0 Transformation Framework to Guide Large-scale Health System Reform Health Affairs 33(11): 2003 - 2011
17. Harries J – blog (2014) **Healthcare public health: who doesn't do it? – UK Health Security Agency**
18. Health Information and Quality Authority (2023) Review of National Public Health Strategies in Selected Countries HIQA **Available at https://www.hiqa.ie/reports-and-publications/health-technology-assessment/review-national-public-health-strategies**
19. H**ealthcare Public Health - NHS Western Isles | Serving the Outer Hebrides of Scotland**. Application of Healthcare public health in practice
20. Hurst L et al (2019) **Defining value-based healthcare in the NHS — Centre for Evidence-Based Medicine (CEBM), University of Oxford**
21. Jarvis T et al (2020) **Defining and classifying public health systems: a critical interpretive synthesis | Health Research Policy and Systems** 18: 68
22. Kluwer W (Updated 2020) **Reducing Unwarranted Variability in Care**
23. Conffederasiwn y GIG (2023)**Transforming health and wellbeing services through population health management, NHS Confederation**
24. GIG Lloegr (2019) **The NHS Long Term Plan**
25. Iechyd Cyhoeddus yr Alban **Whole System Modelling (Scotland)**
26. Reed s et al (2019) **Building healthier communities: the role of the NHS as an anchor institution** Y Sefydliad Iechyd
27. Robertson R et al (2023) **Tackling Health Inequalities In Waiting Lists** King's Fund
28. Selman S & Siddique L (2022) **Role of Primary Care in Health Systems Strengthening Achievements, Challenges, and Suggestions** Open Journal of Soc. Sciences 10(10): Sept 2022
29. Rhwydwaith Arloesedd Iechyd Partneriaid Coleg Prifysgol Llundain **Size of the Prize for high blood pressure**
30. Llywodraeth Cymru (2021) **Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu | LLYW.CYMRU**
31. Witter S et al (2019) **Health system strengthening—Reflections on its meaning, assessment, and our state of knowledge The International Journal of Health Planning and**

GIG
CYMRU
NHS
WALES